VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG



# CTGF

# CYNLLUN TENANTIAETH A GYNORTHWYIR Y FRO

## Llyfryn Gwybodaeth CTGF

Vale Homes
Safe in our hands
Cartrefi'r Fro
Diogel yn ein dwylo



Vale Homes @ValeHomes

## Beth yw ystyr CTGF?

Ystyr CTGF yw ‘Cynllun Tenantiaeth a Gynorthwyir y Fro’.

## Beth yw’r cynllun CTGF?

Gall y cynllun CTGF gynorthwyo cleientiaid sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref i gael mynediad at y sector rhentu preifat gyda'r posibilrwydd o gymorth ariannol a allai gynnwys bond a/neu rent mis cyntaf ymlaen llaw.

## Beth yw Tystysgrif Gwarant Bond?

Mae Tystysgrif Gwarant Bond yn gytundeb ysgrifenedig rhwng y landlord a'r Cyngor sy'n cadarnhau os ydych chi a'r landlord eiddo yn gymwys ar gyfer y cynllun byddwn yn gyfrifol yn ariannol am gost unrhyw ddifrod (hyd at werth un mis o rent neu swm y bond cytunedig).

## I bwy y mae'r arian yn cael ei dalu?

Bydd rhent ymlaen llaw yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord neu'r asiant gosod tai trwy daliad BACS. Bydd y landlord/asiant gosod hefyd yn derbyn tystysgrif gwarant bond tra pery'r denantiaeth. Os bydd landlord yn gwneud cais bond, bydd yr arian yn cael ei hawlio'n ôl drwy gynllun talu gan y cleient.

## A yw’r cynllun CTGF yn talu'r ffi weinyddol?

Na. Ni fydd y cynllun CTGF yn talu am unrhyw ffi weinyddol. Chi fel y cleient sy'n talu am hyn. Rydym yn argymell eich bod yn osgoi talu ffioedd gweinyddu hyd nes y bydd Iechyd yr Amgylchedd yn arolygu'r eiddo ac y bernir ei fod yn addas. Hefyd, rhaid cofrestru'r eiddo ar Rentu Doeth Cymru er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth ariannol.

## Beth sy'n digwydd os byddaf yn dod o hyd i eiddo?

Os byddwch yn dod o hyd i eiddo, bydd angen i'ch gweithiwr achos sicrhau bod yr eiddo'n fforddiadwy i chi, felly bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi cwblhau ffurflen incwm a gwariant fanwl ac wedi'i dychwelyd i'ch gweithiwr achos ynghyd â'ch cyfriflenni banc diweddaraf (am y 3 mis diwethaf). Heb brawf o incwm, ni fyddwn yn gallu cadarnhau a fyddwn yn eich cynorthwyo gyda’r CTGF.

## Os oes gan fy ngweithiwr achos y dogfennau hyn ac yn cytuno i fwrw ymlaen, beth yw'r camau nesaf?

Os byddwch yn dod o hyd i eiddo, bydd angen i chi hysbysu'r landlord/asiant gosod y bydd angen i'r eiddo gael ei archwilio gan Iechyd yr Amgylchedd. Bydd angen i chi gysylltu â'ch gweithiwr achos a rhoi gwybod iddynt beth yw'r cyfeiriad a manylion y landlord/asiant er mwyn gwneud atgyfeiriad i Iechyd yr Amgylchedd i gynnal arolygiad a barnu bod yr eiddo'n addas. Ar ôl i ni gael ein hysbysu gan Iechyd yr Amgylchedd bod yr eiddo'n addas, gellir trefnu taliad a gallwch drafod y dyddiad symud i mewn rhyngoch chi a'r landlord/asiant. Sylwch nad oes rhaid i Iechyd yr Amgylchedd archwilio eiddo sydd y tu allan i'r ardal.



## Beth os ydw i wedi cael help gyda'r cynllun CTGF o'r blaen?

Os bydd eich amgylchiadau wedi newid heb fod unrhyw fai arnoch chi, gall Bro Morgannwg ystyried a ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol pellach. Os nad oes newid yn yr amgylchiadau a'ch bod wedi gadael yr eiddo yn wirfoddol, gall Bro Morgannwg wrthod cynorthwyo ymhellach.

## Pa amgylchiadau fyddai'r rhain yn eu cynnwys?

Pe bai angen i chi symud heb fod unrhyw fai arnoch chi, gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys –

1. Os penderfynodd eich landlord werthu'r eiddo
2. Os bydd Iechyd yr Amgylchedd yn dyroddi hysbysiad gwahardd ac nad oes gan eich landlord yswiriant i'ch cartrefu.

Byddai Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn ceisio cynorthwyo os nad oedd hawliad ar fond blaenorol a bod rhent y mis cyntaf wedi'i ad-dalu.

## Byddai'n well gennyf aros am eiddo Cyngor heb rentu'n breifat, a yw hynny'n opsiwn?

Yn anffodus, na. Cyflwynwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 ac mae awdurdodau lleol nawr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau drwy'r sector rhentu preifat. Os yw cynnig llety priodol yn cael ei gynnig i chi a'i fod yn fforddiadwy, dylech dderbyn hynny gan y gall yr awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd i chi os ydych yn gwrthod, a bydd cymorth pellach yn gyfyngedig.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mae'n bwysig i chi gadw mewn cysylltiad â'ch gweithiwr achos neu os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol cysylltwch â'r Tîm Datrysiadau Tai ar 01446 709567.

